Estyn

*Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gatholig Rufeinig Sant Padarn
**Ffordd Llanbadarn**
**Aberystwyth**
**Ceredigion**
**SY23 1EZ**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**
**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 06/08/2014**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Gatholig Rufeinig Sant Padarn yn nhref Aberystwyth, Ceredigion.  Mae 124 o ddisgyblion amser llawn ar y gofrestr, rhwng pedair ac 11 oed.

Daw llawer o ddisgyblion o gartrefi Saesneg mamiaith.  Mae tua 30% o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol ac mae llawer o'r disgyblion o ethnigrwydd Gwyn Prydeinig.  Mae gan naw y cant o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n is na'r cyfartaleddau cenedlaethol a lleol.

Mae'r ysgol wedi nodi bod gan ryw 30% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol.  Mae hyn uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol.  Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf yn yr ysgol ym Mai 2008.  Mae'r pennaeth presennol wedi bod yn ei swydd er Ionawr 2014.

Mae'r gyllideb ysgol unigol ar gyfer Ysgol Gynradd Gatholig Rufeinig Sant Padarn yn 2013-2014 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,489 fesul disgybl.  Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yng Ngheredigion yw £9,978 a'r isafswm yw £3,119.  Mae Ysgol Gynradd Gatholig Rufeinig Sant Padarn yn safle 40 allan o'r 51 ysgol gynradd yng Ngheredigion o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol;
- mae'r ysgol yn gwella datblygiad ysbrydol, personol a chymdeithasol a lles disgyblion yn effeithiol;
- mae'r ysgol yn darparu ystod o brofiadau dysgu perthnasol a diddorol ar gyfer disgyblion;
- mae'r defnydd a wneir o staff cymorth a'u heffaith yn gryfder yn yr ysgol;
- mae'r ysgol yn gymuned ddiogel a gofalgar sy'n gwerthfawrogi pob disgybl yn gyfartal;
- caiff yr amgylchedd dysgu dan do ac yn yr awyr agored, ei ddefnyddio'n effeithlon; ac
- mae partneriaethau buddiol gyda rhieni, y gymuned leol a sefydliadau eraill.

Fodd bynnag:

- nid yw disgyblion yn ymestyn eu syniadau ysgrifenedig yn annibynnol;
- nid yw disgyblion yn defnyddio ac yn cymhwyso'u medrau yn dda ar draws y cwricwlwm, yn enwedig eu medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh);
- nid yw disgyblion yn gwneud cynnydd priodol wrth ddefnyddio'r Gymraeg;
- mae cynllunio gwersi yn anghyson ac nid yw'n cynnwys dilyniant; ac
- nid yw athrawon yn herio disgyblion ddigon.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- mae'r pennaeth a benodwyd yn ddiweddar yn dechrau cyflwyno gwelliannau trwy systemau a mentrau newydd;
- mae'r pennaeth wedi rheoli newidiadau diweddar yn dda;
- mae llywodraethwyr yn gefnogol i'r ysgol ac maent yn dechrau gweithio'n dda gyda'r pennaeth i sicrhau bod gan yr ysgol systemau cadarn ar waith i godi safonau disgyblion a gwella ansawdd y ddarpariaeth; ac
- mae cynllun datblygu presennol yr ysgol yn cysylltu'n dda â'r meysydd y mae angen eu gwella fwyaf.

Fodd bynnag:

- mae rolau'r uwch dîm rheoli wrthi'n cael eu datblygu ar hyn o bryd;

- mae systemau a sefydlwyd yn ddiweddar yn gweithio'n dda, fodd bynnag, mae'n rhy gynnar iddynt gael effaith uniongyrchol ar safonau disgyblion ac ansawdd yr addysgu;
- mae rolau strategol y llywodraethwyr yn newydd ac nid ydynt wedi'u sefydlu'n llawn; ac
- ni fodlonwyd bron pob un o'r argymhellion o'r arolygiad blaenorol.

## Argymhellion

A1 Gwella medrau rhifedd a TGCh disgyblion

A2 Gwella safonau Cymraeg disgyblion

A3 Gwella'r ffordd y caiff gwersi eu cynllunio, yn arbennig trwy roi mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu eu syniadau eu hunain

A4 Gwella ansawdd yr addysgu, yn enwedig gwella'r her a roddir i ddisgyblion mwy abl

A5 Datblygu rolau strategol tîm rheoli a chorff llywodraethol yr ysgol i gefnogi'r systemau gwella effeithiol sy'n cael eu rhoi ar waith gan y pennaeth

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn dechrau'r ysgol â medrau sydd uwchlaw'r rhai sy'n ddisgwyliedig am eu hoedran. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol o'u mannau cychwyn.

Yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud defnydd effeithiol o'u medrau llythrennedd ar draws y cwricwlwm ac mae eu safonau siarad a gwrando yn dda ar y cyfan. Trwy gydol y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n astud ac maent yn ymateb yn dda i'w hathrawon a'u cyfoedion wrth ateb cwestiynau a thrafod eu gwaith mewn grwpiau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus wrth siarad ag oedolion a phlant eraill.

Mae medrau darllen ac ysgrifennu llawer o ddisgyblion yn datblygu'n briodol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall y mwyafrif ohonynt ddarllen gyda rhuglder cynyddol. Gwnânt ddefnydd da o gliwiau llun i adnabod geiriau bob dydd ac maent yn darllen llyfrau syml. Gall mwyafrif y disgyblion fynegi barn am eu llyfrau; fodd bynnag, mae lleiafrif ohonynt yn ei chael yn anodd rhagweld beth fydd yn digwydd nesaf. Mae llawer o ddisgyblion iau yn mwynhau ail-ddweud storïau ac yn galw nifer o fanylion i gof yn gywir, gan gynnwys cymeriadau, achosion arwyddocaol ac adegau doniol.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen i safon sydd o leiaf yn briodol i'w hoedran a'u gallu. Gallant ddewis testunau addas o amrywiaeth o ffynonellau er mwyn gwella'u gwybodaeth am yr hyn y maent yn ei ddysgu. Gall llawer ohonynt ateb cwestiynau am y gwahanol arddulliau mewn testunau y maent yn eu darllen ac maent yn rhannu eu barn yn synhwyrol am eu hoff lyfrau ac awduron. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn trafod ystyr yr hyn y maent wedi'i ddarllen yn ddigon cywir.

Yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2 fel ei gilydd, mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu'n dda mewn amrywiaeth o ffurfiau, er enghraifft wrth ysgrifennu dadleuon a chofio digwyddiadau hanesyddol. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y disgyblion yn ymestyn eu hysgrifennu mewn ffyrdd diddorol nac yn defnyddio'u syniadau eu hunain wrth ysgrifennu ar draws y cwricwlwm. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'u gwybodaeth am ramadeg, sillafu ac atalnodi yn briodol wrth ysgrifennu ar draws y cwricwlwm.

Gyda chymorth, gall pob un o'r disgyblion iau yn y Cyfnod Sylfaen gyfrif, trefnu a didoli rhifau i 10 yn gywir. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio bondiau rhif i fyny i 20 yn hyderus. Mae llawer ohonynt yn defnyddio siartiau cyfrif yn gywir i gofnodi gwybodaeth a gallant drosglwyddo'r wybodaeth yn llwyddiannus i ddangos eu canlyniadau mewn siartiau bar. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau rhifedd yn effeithiol mewn sefyllfaoedd bob dydd, er enghraifft wrth gyfrif arian, mesur a dweud yr amser.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio iaith fathemategol yn y cyd-destun cywir. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, gall mwyafrif y disgyblion gyfrif ffracsiynau a degolion yn briodol ac mae ganddynt wybodaeth dda am werth lle. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn dda wrth ateb cwestiynau heriol ar ganrannau a gallant esbonio’r strategaethau a ddefnyddir yn gywir. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth briodol o’r mathau sylfaenol o graffiau a siartiau a ddefnyddir i gyflwyno gwahanol ddata. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion yn defnyddio’u gwybodaeth fathemategol ar draws y cwricwlwm yn annibynnol. Er enghraifft, darllen graddfeydd ar fapiau, chwilio am wybodaeth mewn cronfeydd data a dewis eu strategaethau eu hunain i ddatrys problemau.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos dyfalbarhad a hyder cynyddol wrth gwblhau tasgau TGCh. Maent yn arbed eu gwaith ac yn dod o hyd iddo’n effeithlon ar offer electronig o bryd i’w gilydd. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod ddigon eang o fedrau TGCh yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm i ddatblygu, creu, cyflwyno a dod o hyd i wybodaeth.

Mae rhai disgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio’r Gymraeg yn naturiol y tu allan i wersi Cymraeg, ond nid yw llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol o ran ennill medrau Cymraeg. Mae defnydd y rhan fwyaf o ddisgyblion o’r Gymraeg mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol wedi’i gyfyngu i ymadroddion syml iawn.

Yn 2013, fe wnaeth canran y disgyblion a gyflawnodd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen osod yr ysgol yn y 50% is ar gyfer llythrennedd a datblygiad mathemategol o gymharu ag ysgolion tebyg. Roedd hyn yn ostyngiad o 2012 mewn llythrennedd, pan roedd perfformiad yr ysgol yn ei gosod yn y 50% uwch.

Ar y deilliant 6 uwch na’r disgwyl, roedd yr ysgol yn y 50% is ar gyfer llythrennedd a datblygiad mathemategol. Roedd hyn yn ostyngiad o 2012, pan roedd llythrennedd yn y 50% uwch a datblygiad mathemategol yn y 25% uchaf.

Dros y pum mlynedd diwethaf ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae canlyniadau mewn Saesneg yn gosod yr ysgol rhwng y 25% uchaf a’r 50% is. Mewn mathemateg, y duedd yw bod yr ysgol yn y 50% is neu’r 25% isaf. Mae gwyddoniaeth yn y 50% is yn gyson dros y pum mlynedd diwethaf.

Ar y lefel 5 sy’n uwch na’r disgwyl, mae perfformiad disgyblion dros y pum mlynedd diwethaf mewn Saesneg wedi symud o’r 25% uchaf yn 2009 i’r 50% is yn 2013. Mae mathemateg wedi aros yn y 50% is dros y pum mlynedd diwethaf heblaw am 2011 pan roedd yr ysgol yn y 50% uwch. Mae gwyddoniaeth wedi gwella o’r 50% is yn 2009 i’r 25% uchaf yn 2013.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o’r disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd iechyd a ffitrwydd ac yn cyflawni’n dda o ran eu datblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol. Maent yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod sut gallant gadw’n iach trwy fwyta’n synhwyrol a gwneud ymarfer corff trwy weithgareddau chwaraeon rheolaidd a heriol. Mae hon yn nodwedd gref yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau eu gwersi ac yn darparu barn briodol pan gânt eu holi am yr hyn y maent yn ei ddysgu. Maent yn wybodus wrth drafod yr angen i ofalu am yr amgylchedd a'r byd amrywiol y maent yn byw ynddo.

Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda ac mae bron pob un ohonynt yn gwrtais ac yn ymateb yn barchus i oedolion a'u cyfoedion. Maent yn deall bod ganddynt hawliau fel unigolion ac mae hyn yn amlwg ar draws yr ysgol trwy waith y cyngor ysgol a thrwy gysylltiad yr Eglwys Gatholig.

Mae aelodau o'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco yn cymryd rhan weithredol ym mywyd yr ysgol ac yn gwneud penderfyniadau synhwyrol, er enghraifft wrth ddatblygu'r ardaloedd chwarae yn yr awyr agored a'r ardaloedd amgylcheddol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos ymrwymiad cadarnhaol i'w cymuned leol.

Mae cyfradd presenoldeb disgyblion dros gyfnod, sydd ychydig islaw 95%, yn dda. Mae bron pob un o'r disgyblion yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae athrawon yn cyflwyno ystod addas o brofiadau i bob disgybl, gyda ffocws cadarnhaol ar ddatblygu medrau cymdeithasol a medrau bywyd disgyblion. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, mae cynllunio gwersi o ddydd i ddydd yn anghyson. Nid yw cynllunio'n canolbwyntio'n ddigon da ar ddatblygu'r meysydd dysgu yn y Cyfnod Sylfaen, ystod y Cwricwlwm Cenedlaethol yng nghyfnod allweddol 2 na datblygu medrau llythrennedd a rhifedd yn gynyddol. Nid yw athrawon yn rhoi digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio a chymhwyso eu medrau, yn enwedig mewn rhifedd a TGCh.

Mae gweithgareddau cyfoethogi o gwmpas yr ysgol yn yr ardaloedd awyr agored a theithiau addysgol yn gwella profiadau dysgu disgyblion yn effeithiol. Mae gwaith cartref rheolaidd yn adeiladu'n briodol ar yr hyn y mae disgyblion yn ei ddysgu yn y dosbarth.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad disgyblion yn y Gymraeg yn amlwg ar draws yr ysgol ac mae'r rhan fwyaf o staff yn gwneud defnydd achlysurol o'r Gymraeg yn rheolaidd gyda disgyblion. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cael effaith ddigon da ar safonau disgyblion. Mae cyfleoedd systematig ac effeithiol i ddisgyblion ddysgu am eu hardal, a hanes a diwylliant Cymru.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn gadarnhaol ar draws y cwricwlwm. Mae ganddi bwyllgor eco sefydledig, sydd wedi gwneud gwelliannau effeithiol, er enghraifft mewn ailgylchu ac arbed ynni.

**Addysgu: Digonol**

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn ymgysylltu â disgyblion yn briodol wrth gyflwyno tasgau. Maent yn rheoli ymddygiad yn dda ac mae ganddynt ddisgwyliadau clir a chyson o'r hyn sy'n dderbyniol. Fodd bynnag, ni chaiff gwersi eu trefnu a'u

cynllunio'n llwyddiannus ac mae'r rhan fwyaf o wersi'n symud yn araf. Mae cyflwyniadau yn tueddu i fod yn rhy hir ac mae hyn yn golygu bod lleiafrif o ddisgyblion yn colli diddordeb yn y tasgau.

Mae athrawon yn rhannu amcanion dysgu yn briodol gyda disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r tasgau a gynllunnir ar gyfer y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cynnig digon o her iddynt ac nid ydynt yn annog disgyblion i weithio i'w llawn botensial. Mae hyn yn arbennig o amlwg yn yr heriau a'r tasgau a osodir ar gyfer y disgyblion mwy abl. Mae athrawon yn defnyddio staff cymorth yn dda a gwnânt gyfraniad cadarnhaol at y profiadau dysgu a chynnydd disgyblion. Mae staff cymorth yn helpu i greu awyrgylch gweithio pwrpasol yn yr ystafell ddosbarth ac yn yr awyr agored.

Mae athrawon yn defnyddio asesu yn effeithlon i nodi disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Maent yn olrhain cynnydd disgyblion yn briodol. Mae athrawon yn dechrau darparu cyfleoedd i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. Mae'r marcio'n dda, ond ar adegau, nid yw'n nodi'r camau nesaf mewn dysgu disgyblion yn ddigon manwl.

Mae adroddiadau i rieni yn addysgiadol. Maent yn nodi targedau clir ar gyfer gwella ac yn cynnwys cyfleoedd i rieni roi sylwadau.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ddiogel a gofalgar sy'n gwerthfawrogi pob disgybl yn gyfartal. Mae'n cefnogi datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus, yn enwedig trwy ei chysylltiadau agos â'r Eglwys Gatholig leol. Ceir trefniadau buddiol i gefnogi iechyd a lles disgyblion a'u hannog i gymryd rhan yn yr ysgol a'r gymuned. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r ysgol yn nodi disgwyliadau clir am ymddygiad disgyblion ac mae staff yn hyrwyddo'r rhain yn gyson ym mhob dosbarth, yn ogystal â hyrwyddo parch a sensitifrwydd tuag at bobl eraill. Mae'r ysgol yn delio'n effeithiol ag unrhyw achosion o fwlio. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn nodwedd dda yn yr ysgol. Mae athrawon yn nodi anghenion disgyblion yn gynnar. Caiff gwybodaeth o arsylwadau a phrofion ystafell ddosbarth eu dadansoddi'n ofalus i ddarparu ystod addas o raglenni cymorth. Mae cynlluniau addysg unigol yn cynnwys targedau clir a gall disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol fanteisio'n llawn ar holl feysydd y cwricwlwm. Mae systemau effeithlon ar waith i fonitro ac asesu cynnydd disgyblion. Mae'r ysgol yn defnyddio cynorthwywyr addysgu yn effeithiol i gefnogi addysgu.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus sydd ag awyrgylch teuluol ac mae'n sicrhau bod pob un o'r plant yn teimlo'n ddiogel a saff. Mae hyn yn treiddio trwy bob agwedd ar fywyd yr ysgol ac mae'n gryfder yn yr ysgol. Mae ethos cadarnhaol iawn yn yr ysgol, sy'n

annog pob disgybl i drin pobl eraill yn deg a dangos parch atynt, beth bynnag fo'u rhyw neu'u hil. Mae'n darparu cyfle cyfartal ac mae'n gwbl gynhwysol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithlon o'r amgylchedd ffisegol a defnyddir adeilad yr ysgol yn dda. Mae'r adnoddau chwarae a dysgu yn yr awyr agored yn cyfoethogi dysgu disgyblion yn addas trwy ddefnyddio gweithgareddau difyr yn yr ystafell ddosbarth awyr agored. Yn ychwanegol, mae gan yr ysgol fynediad at y caeau chwarae lleol, sy'n cefnogi dysgu disgyblion yn dda.

Mae arddangosfeydd yn yr ystafelloedd dosbarth ac ar draws yr ysgol yn adlewyrchu a dathlu gwaith disgyblion yn llwyddiannus. Mae ystod eang o adnoddau yn amlwg ym mhob ystafell ddosbarth ac maent yn cefnogi dysgu disgyblion yn dda.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r arweinyddiaeth yn hyrwyddo cymuned ofalgar a chynhwysol sydd â synnwyr ar y cyd o ddiben, yn canolbwyntio ar les disgyblion. Mae datganiad cenhadaeth yr ysgol yn ategu'r ethos hwn.

Mae'r pennaeth a benodwyd yn ddiweddar yn darparu arweinyddiaeth glir a phwrpasol sy'n canolbwyntio ar wella deilliannau ar gyfer disgyblion. Ers ei benodi'n ddiweddar, mae wedi sefydlu systemau cadarn ar gyfer monitro deilliannau disgyblion ac ansawdd yr addysgu. Mae'r systemau a sefydlwyd yn ddiweddar yn gweithio'n dda; fodd bynnag, mae'n rhy gynnar iddynt gael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion ac ansawdd yr addysgu.

Mae'r aelodau eraill o'r tîm arweinyddiaeth yn cyfrannu'n addas at redeg yr ysgol o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae eu rôl fel arweinwyr strategol.

Mae cyfarfodydd staff yn bwrpasol, a cheir ffocws clir ar wella safonau ac ansawdd y ddarpariaeth. O ganlyniad, mae'r pennaeth newydd wedi sicrhau llawer o welliannau. Mae enghreifftiau'n cynnwys amgylchedd mwy diogel yn yr ysgol a ffocws cyffredin ar wella deilliannau disgyblion. O dan gyfarwyddyd effeithiol y pennaeth, mae cynnydd tuag at weithredu'r flaenoriaeth genedlaethol i gyflwyno'r fframwaith llythrennedd a rhifedd yn datblygu'n briodol.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn ac yn deall cymuned yr ysgol yn dda. Erbyn hyn, mae'n dechrau herio'r ysgol a'i dwyn i gyfrif am ei pherfformiad yn well. Mae llawer o lywodraethwyr yn mynychu cyrsiau hyfforddi'r awdurdod lleol er mwyn datblygu eu medrau fel arweinwyr strategol ymhellach. Mae hyn yn gwella'u dealltwriaeth o'u rôl wrth fonitro gwaith yr ysgol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mewn cyfnod cymharol fyr, mae'r pennaeth wedi casglu tystiolaeth uniongyrchol yn llwyddiannus i gefnogi hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella'r ysgol. Mae hyn yn

cynnwys ystod eang o weithgareddau hunanarfarnu, gan gynnwys ymgynghori â rhieni, arsylwadau gwersi a dadansoddi data. Mae’r pennaeth wedi datblygu amserlen ddefnyddiol sy’n cynnwys ystod gadarn o weithgareddau monitro dros raddfa amser hwy. Fodd bynnag, mae’n rhy gynnar i fesur effaith yr arfer dda hon ar safonau ac ansawdd y ddarpariaeth.

Mae’r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen gynhwysfawr sy’n rhoi darlun cywir ar y cyfan o gryfderau’r ysgol a’r meysydd i’w gwella. O dan arweinyddiaeth effeithiol y pennaeth, mae aelodau o staff a llywodraethwyr yn deall diben a phwysigrwydd hunanarfarnu ac mae eu rôl mewn monitro gweithgareddau yn datblygu’n briodol.

Mae’r cynllun datblygu presennol yn cynnwys ffocws addas ar yr angen i wella safonau. Mae’n cynnwys camau gweithredu clir ar gyfer gwella, ac yn nodi’r bobl sy’n gyfrifol am fonitro’r cynllun a’i roi ar waith. Mae’r cynllun yn dangos yn glir beth yw’r goblygiadau cyllid a’r graddfeydd amser ar gyfer cwblhau.

Nid yw’r ysgol wedi mynd i’r afael yn ddigonol ag argymhellion o’r arolygiad diwethaf chwe blynedd yn ôl. Fodd bynnag, mae’r argymhellion yn ffurfio rhan o’r cynllun gwella ysgol newydd a luniwyd yn Ionawr 2014. Erbyn hyn, ceir system effeithiol ar gyfer monitro cynnydd tuag at fodloni argymhellion.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r ysgol yn gweithio’n effeithiol gydag ystod o bartneriaid strategol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar les disgyblion ac mae’n cyfoethogi eu profiadau dysgu.

Mae bron pob un o’r rhieni yn gefnogol i’r ysgol ac maent yn werthfawrogol iawn o lefel uchel y gofal a ddarperir ar gyfer eu plant. Mae bron pob un ohonynt yn teimlo eu bod yn cael eu hysbysu’n dda am waith yr ysgol a’r cynnydd y mae eu plentyn yn ei wneud. Cânt eu cynnwys yn uniongyrchol yn nysgu eu plant, er enghraifft trwy ddefnyddio tasgau gwaith cartref.

Mae’r bartneriaeth dda gydag ysgolion eraill yn y clwstwr yn hyrwyddo rhannu arfer dda yn effeithiol. Mae gweithdrefnau clwstwr ar gyfer safoni a chymedroli gwaith disgyblion wedi hen ennill eu plwyf. Mae hyn wedi arwain at ddealltwriaeth well o safonau cyrhaeddiad ac wedi helpu i sicrhau cysondeb gwell wrth asesu gwaith disgyblion.

Mae’r cyfnod pontio o’r ysgol gynradd i’r ysgol uwchradd wedi’i gynllunio’n dda. Mae disgyblion yn elwa ar weithgareddau wedi’u cynllunio’n dda sy’n cael effaith gadarnhaol ar eu lles ac yn sicrhau eu bod yn trosglwyddo’n ddidrafferth i’r cyfnod nesaf yn eu haddysg. Mae’r bartneriaeth agos rhwng yr ysgol a’r cylch chwarae lleol yn sicrhau bod y disgyblion iau yn ymgynefino’n hyderus yn y dosbarth derbyn.

Mae’r ysgol yn gweithio’n dda mewn partneriaeth â’r awdurdod lleol ac asiantaethau arbenigol i gefnogi dysgu a lles disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol ddigon o staff â chymwysterau da i addysgu pob agwedd ar y cwricwlwm. Gwneir defnydd effeithiol o staff cymorth, sy'n gwneud cyfraniad gwerthfawr at brofiadau dysgu disgyblion. Ceir trefniadau addas ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon.

Gwneir defnydd da o'r holl le sydd ar gael dan do ac yn yr awyr agored i gefnogi dysgu disgyblion.

Mae'r ysgol yn nodi ac yn bodloni anghenion pob un o'r staff trwy weithdrefnau rheoli perfformiad priodol. Rhoddir cyfleoedd da i staff gymryd rhan mewn hyfforddiant sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau'r ysgol a blaenoriaethau cenedlaethol, a datblygu eu harbenigedd yn briodol. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae cyfleoedd i staff arsylwi a rhannu arfer dda gydag ysgolion yn eu cymuned leol a thu hwnt.

Mae'r ysgol yn rheoli ei chyllid yn briodol, sy'n sicrhau bod ystod addas o adnoddau dysgu ac addysgu ar gael. Mae penderfyniadau gwariant yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau ar gyfer gwella a lles disgyblion.

Yng ngoleuni'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth, mae'r ysgol yn darparu gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yn 2013, fe wnaeth canran y disgyblion a gyflawnodd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen osod yr ysgol yn y 50% is ar gyfer llythrennedd o gymharu ag ysgolion tebyg. Roedd hyn yn ostyngiad o 2012, pan wnaeth perfformiad yr ysgol ei gosod yn y 50% uwch. Yn 2013, perfformiodd y disgyblion islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu, ond uwchlaw cyfartaleddau cenedlaethol.

Fe wnaeth canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen mewn datblygiad mathemategol osod yr ysgol yn y 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg. Roedd hyn yr un fath â 2012. Yn 2013, perfformiodd y disgyblion islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu, ond uwchlaw cyfartaleddau cenedlaethol.

Mewn datblygiad personol a chymdeithasol, symudodd yr ysgol o'r 50% is o ysgolion tebyg yn 2012 i'r 25% uchaf yn 2013. Yn 2013, roedd perfformiad disgyblion mewn datblygiad personol a chymdeithasol ar y lefel ddisgwyliedig uwchlaw cyfartaledd y teulu a'r cyfartaledd cenedlaethol.

Fe wnaeth cyfran y disgyblion mwy abl a gyflawnodd ddeilliant 6 yn y Cyfnod Sylfaen mewn llythrennedd, osod yr ysgol yn y 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg yn 2012 a'r 50% is yn 2013. Roedd hyn islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu ond uwchlaw cyfartaleddau cenedlaethol.

Mewn datblygiad mathemategol, fe wnaeth cyrhaeddiad disgyblion osod yr ysgol yn y 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg. Roedd hyn islaw cyfartaledd y teulu a'r cyfartaledd cenedlaethol yn 2013. Roedd hyn yn ostyngiad o 2012, pan roedd yr ysgol yn y 25% uchaf.

Ar y lefel 4 ddisgwyliedig dros y pum mlynedd diwethaf, mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 2 wedi golygu bod yr ysgol wedi amrywio rhwng y 50% is a'r 25% uchaf o ysgolion tebyg mewn Saesneg. Mae mathemateg wedi aros yn y 50% is a'r 25% isaf dros y cyfnod hwn, ar wahân i 2012 pan symudodd i'r 50% uwch. Mae gwyddoniaeth wedi aros yn gyson yn y 50% is. Yn y dangosydd pwnc craidd, mae perfformiad yr ysgol wedi amrywio rhwng y 25% isaf a'r 25% uchaf.

Ar y lefelau uwch na'r disgwyl (lefel 5) mewn Saesneg dros y pum mlynedd diwethaf, mae'r ysgol wedi symud o'r 25% uchaf o ysgolion tebyg yn 2009 a 2010 i'r 50% is yn 2013. Mewn mathemateg, mae perfformiad wedi aros yn y 50% is, heblaw am 2011, pan symudodd i'r 50% uwch. Yn ystod y cyfnod hwn, mae gwyddoniaeth wedi symud o'r 50% is o ysgolion tebyg yn 2009 i'r 25% uchaf yn 2013.

Yn 2013, ar y lefel 4 ddisgwyliedig, roedd cyrhaeddiad disgyblion uwchlaw cyfartaledd y teulu a'r cyfartaledd cenedlaethol mewn Saesneg. Roedd islaw cyfartaledd y teulu, ond uwchlaw'r cyfartaleddau cenedlaethol mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Ar y lefel 5 sy'n uwch na'r disgwyl mewn Saesneg a mathemateg, roedd perfformiad yr ysgol islaw cyfartaledd y teulu, ond uwchlaw cyfartaleddau cenedlaethol. Mewn gwyddoniaeth, roedd y perfformiad uwchlaw cyfartaledd y teulu

a’r cyfartaledd cenedlaethol.

Dros gyfnod, mae merched fel grŵp yn perfformio’n well na bechgyn ar y cyfan, ac nid yw disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn tueddu i berfformio cystal â’u cyfoedion.  O’r dystiolaeth yng ngwaith disgyblion, arsylwadau gwersi ac wrth siarad â disgyblion, mae’r safonau mewn dosbarthiadau yn ddigonol.

# Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

Holiadur Cynradd (Pob Disgybl)

Mae’n dynodi’r meincnod – mae hyn yn gyfanswm o’r holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 69 | 68<br>99%<br>98% | 1<br>1%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 68 | 65<br>96%<br>92% | 3<br>4%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 69 | 69<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 69 | 68<br>99%<br>97% | 1<br>1%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 69 | 69<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 69 | 68<br>99%<br>96% | 1<br>1%<br>4% | Rwy’n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 69 | 69<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 69 | 68<br>99%<br>98% | 1<br>1%<br>2% | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 68 | 64<br>94%<br>91% | 4<br>6%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 69 | 63<br>91% | 6<br>9% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 68 | 56<br>82% | 12<br>18% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 69 | 63<br>91% | 6<br>9% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 41 | 32<br>78% | 9<br>22% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 42 | 35<br>83% | 7<br>17% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 42 | 34<br>81% | 8<br>19% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 41 | 29<br>71% | 12<br>29% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 42 | 27<br>64% | 15<br>36% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 41 | 27<br>66% | 13<br>32% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 41 | 30<br>73% | 11<br>27% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed a gwneud ei orau. |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 41 | 21<br>51% | 16<br>39% | 0<br>0% | 0<br>0% | 4 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Staff treat all children fairly and with respect. | 42 | 32 | 9 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 76% | 21% | 0% | 0% | | |
| | | 58% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 42 | 28 | 13 | 1 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 67% | 31% | 2% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 42 | 28 | 14 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 40 | 22 | 16 | 0 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 55% | 40% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 41 | 21 | 17 | 2 | 0 | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 51% | 41% | 5% | 0% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 42 | 32 | 10 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 76% | 24% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 42 | 22 | 18 | 1 | 0 | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 52% | 43% | 2% | 0% | | |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 42 | 25 | 17 | 0 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 60% | 40% | 0% | 0% | | |
| | | 56% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 39 | 19 | 12 | 0 | 0 | 8 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 49% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 41 | 27 | 12 | 0 | 0 | 2 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 66% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 42 | 27 | 15 | 0 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 64% | 36% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 33% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Rhian Jones | Arolygydd Tîm |
| David Owen Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Janet Harris | Arolygydd Cymheiriaid |
| Peter Leggett | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn

chwarteli wedyn (o’r 25% uchaf i’r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae’n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.